Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 30 MAI 2023 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 30 MAY 2023 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5 CYNLLUN DEWISOL COSTAU BYW - ADRODDIAD TERFYNOL** (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6 STRATEGAETH PLANT SY'N DERBYN GOFAL AC ÔL-OFAL YNYS MÔN 2023 – 2028** (Tudalennau 27 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**7 DEFNYDD O ARIAN PREMIWM AIL GARTREFI** (Tudalennau 43 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn hybrid ar 25 Ebrill, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn E. Jones, Gary Pritchard, Nicola Roberts, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Rheolwr Adfywio (DLl)<br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol (AG)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams, Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, John I. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Ken Taylor, Mr. Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu) |

---

Cyn cychwyn y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn cais gan y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Parterniaeth ac Adfywio, i newid trefn yr eitemau er mwyn trafod eitem 5 ar y rhaglen (Strategaeth Wella Canol Trefi Ynys Môn) yn olaf er mwyn caniatáu iddo gyflwyno adborth y Pwyllgor Sgriwtini ar yr eitem honno. Cynigiodd y Cynghorydd Ieuan Williams fod trefn yr eitemau'n cael ei newid, yn unol â'r cais, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Gary Pritchard.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Nid oedd dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith, a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023, i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Fai i Ragfyr 2023.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth wybod i'r Pwyllgor Gwaith am y newidiadau diweddaraf i'r Flaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol –

- Eitem 2 (Cynllun Costau Byw Dewisol – diweddariad wedi i'r cynllun ddod i ben) yn eitem newydd a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Mai 2023.
- Eitem 13 (Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg) yn eitem newydd a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023.
- Eitem 19 (Strategaeth Wella Canol Trefi Ynys Môn – drafft terfynol) yn eitem newydd a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi.
- Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn eitem ychwanegol, nad ydyw wedi'i chynnwys ar y rhaglen waith a gyhoeddwyd, i'w threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Mai 2023.
- Mae Adroddiad Cynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei dynnu o'r rhaglen waith ar ôl cytuno nad oes angen bellach ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith bob chwe mis.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mai i Ragfyr, 2023 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. STRATEGAETH WELLA CANOL TREFI YNYS MÔN

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn cynnwys Strategaeth Wella Canol Trefi Ynys Môn.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd fod y strategaeth yn cyflawni'r amcan o wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn y Cynllun y Cyngor newydd, yn ogystal â chydymffurfio ag argymhellion perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i awdurdodau lleol mewn perthynas ag adfywio canol trefi. Yn amodol ar gymeradwyo'r strategaeth, cynhelir proses ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid i gasglu barn a sylwadau ac i geisio cefnogaeth i'r strategaeth arfaethedig cyn llunio strategaeth derfynol fydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei mabwysiadu ddiwedd 2023. Pwysleisiodd bwysigrwydd derbyn barn y cyhoedd ynghylch eu hanghenion nhw ar gyfer canol trefi, yn ogystal â barn busnesau presennol a busnesau sydd wedi gadael canol trefi hefyd, er mwyn deall eu rhesymau dros wneud hynny a beth fyddai'n eu denu'n ôl.

Dywedodd y Rheolwr Adfywio wrth y Pwyllgor Gwaith fod pob awdurdod lleol wedi derbyn cais i roi diweddariad i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gynnydd o ran adfywio canol trefi, pwnc sydd o ddiddordeb i nifer o bobl. Bydd y strategaeth hon hefyd yn golygu y bydd modd sicrhau cyllid at ddibenion adfywio. Comisiynwyd y cwmni *Commonplace* i gynorthwyo'r Cyngor i ddylunio'r broses ymgynghori, fydd yn cael ei chynnal ar-lein, yn ogystal ag yn lleol yn y gymuned. Mae Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ar y broses i bob awdurdod lleol, ac, yn dilyn hynny, bydd y Cyngor yn llunio'r ddogfen ymgynghori gyda *Commonplace*.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, adroddiad yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ebrill 2023 pan drafodwyd Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn. Roedd y Pwyllgor wedi ceisio eglurhad ynghylch y diffiniad o dref a chanol tref a ph'un a oes unrhyw fwriad i gefnogi a gwella pentrefi'r ynys. Roedd yr Aelodau wedi holi am alinio'r strategaeth â ffrydiau gwaith cynllunio lle a chynlluniau i gryfhau

DRAFT

isadeiledd mewn cymunedau unigol. Trafodwyd buddion a risgiau pennaf y strategaeth arfaethedig hefyd, yn ogystal â mesurau i liniaru'r risgiau. Roedd y pwyllgor wedi ceisio eglurhad hefyd am y cyfleoedd a'r heriau yn gysylltiedig â'r ddibyniaeth ar arian grant cystadleuol i gyflawni strategaethau a rhaglenni gwaith sylweddol. Gofynnodd yr Aelodau am argaeledd buddsoddiad preifat i ariannu rhaglenni adfywio canol trefi Ynys Môn ac i ba raddau y byddai'n bosib ceisio cymeradwyaeth i gynlluniau gwario i arbed er mwyn cynyddu capasiti staffio mewnol. Nododd y pwyllgor fod penderfyniadau arwyddocaol gan randdeiliaid yn aml yn gatalydd ar gyfer adfywio canol trefi. Holodd y pwyllgor am y broses ymgynghori gyhoeddus, ac yn arbennig yr amserlenni, y strategaeth gyfathrebu a'r meysydd daearyddol i'w cynnwys. Roedd y Pwyllgor wedi nodi cynnwys y strategaeth ddrafft ac wedi argymell y strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arni.

Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio ar gyfer Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai, er bod y strategaeth yn un ar gyfer y sir gyfan, ni fydd un ateb sy'n addas i bawb yn briodol oherwydd nodweddion gwahanol y trefi, fel y dengys y Trosolwg o Drefi/Canolfannau Trefol yn atodiad 1 yr adroddiad. Mae'n bwysig felly fod pobl ledled yr Ynys yn ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn adlewyrchu gwahanol anghenion y trefi a sicrhau fod y strategaeth derfynol yn ystyrlon ac yn berthnasol i bob tref.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn drafft fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.**

**6. CYNLLUN RHEOLI AHNE DRAFFT**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ymgorffori'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (2023-2028) drafft.

Cyflwynodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol, yr adroddiad gan ddweud fod gofyn statudol ar bob awdurdod lleol sy'n gweinyddu AHNEau i baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer eu hardal a'u hadolygu bob pum mlynedd, a rhaid i'r broses ddilyn canllawiau penodedig. Mae'r cynllun yn amlinellu rhinweddau arbennig yr AHNE sy'n diffinio statws y dynodiad am mae'n cydnabod yr heriau a wynebir, yn enwedig oherwydd gor-dwristiaeth a'i effaith ar wytnwch cymunedau, dirywiad mewn bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Mae'r Cynllun yn nodi pum thema allweddol sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn a bydd hefyd yn caniatáu i weledigaeth y Cyngor ar gyfer yr AHNE gael ei chyflawni. Mae statws yr AHNE yn tyfu o fewn Tirweddau Dynodedig Cymru ac mae'n denu refeniw sylweddol i'r Cyngor. Mae cysylltiad hefyd rhwng y Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan fydd yn cael ei drafod mewn eitem ar wahân ar y rhaglen heddiw. Bydd y Cynllun yn destun ymgynghoriad chwe wythnos gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini.

Yn ôl y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, er bod y Cynllun newydd wedi'i ohirio oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r amser ychwanegol wedi caniatáu i'r Gwasanaeth sicrhau fod y cynnwys a'r blaenoriaethau'n briodol a'u bod yn adlewyrchu themâu a heriau cyfredol. Ystyrir bod angen gwella dealltwriaeth o'r AHNE, yn fewnol yn y Cyngor, ac yn allanol, ymysg y cyhoedd, o ran ei phwrpas a'i sgôp, yn ogystal â nodau'r Cynllun wrth geisio rheoli'r dynodiad. Mae angen gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu sy'n gysylltiedig â'r dynodiad AHNE er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Gwasanaeth a'r Cyngor.

Amlygodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Tai, a oedd yn siarad fel un y mae cyfran helaeth o'i ward etholiadol wedi'i chynnwys yn yr AHNE, bwysigrwydd derbyn adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad arfaethedig ar y Cynllun, yn ogystal ag ymgysylltu gyda chynulleidfa mor eang



DRAFFT

â phosib. Yr AHNE yw un o’r prif resymau pam fod ymwelwyr yn dod i’r Ynys, ac, fel un o’i phrif atyniadau, mae’n rhaid ei hamddiffyn rhag pwysau nifer cynyddol o ymwelwyr, gan sicrhau fod twristiaeth ar yr Ynys yn parhau i fod yn fywiog, ond yn gynaliadwy.

Roedd y Cadeirydd yn cytuno ei bod yn bwysig i’r cyhoedd ymateb i’r ymgynghoriad ac anogodd bawb i wneud hynny er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol; mae’r ymwybyddiaeth gynyddol o’r AHNE a’r heriau ynghlwm â’i rheoli a’i hamddiffyn yn bwysig hefyd, gan sicrhau fod ei chymeriad a’i rhinweddau arbennig yn cael eu cadw a’u gwarchod tra ei bod hefyd yn hygyrch i bawb ei mwynhau.

**Penderfynywd cymeradwyo a chefnogi’r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drafft (2023-28) er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.**

## 7. CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN DRAFFT

Cyflwynwyd, i’r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys y Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028 drafft.

Cyflwynodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol, yr adroddiad a oedd yn amlinellu dyheadau’r Cyngor ar gyfer rheoli cyrchfan yn ystod y 5 mlynedd nesaf, gan ystyried effeithiau’r pandemig Covid-19. Mae’r Cynllun yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi rôl sylfaenol rheoli cyrchfan yn economi Ynys Môn a sicrhau nad yw twristiaeth ddilyffethair yn cael effaith andwyol ar rinweddau unigryw'r Ynys. Mae’n cydnabod bod rhaid i’r cynnig twristiaeth ddarparu buddion economaidd a chymdeithasol i bobl leol a’u cymunedau a bod iaith, diwylliant, amgylchedd a threftadaeth yr Ynys yn nodweddion allweddol sy’n sylfaen i’r cynnig. Mae’r Cynllun yn tynnu ynghyd yr holl gyfrifoldebau a blaenoriaethau Cyrchfan a bydd yn gweithredu fel templed ar gyfer dull mwy cydweithredol a holistaidd o reoli cyrchfan, gan greu partneriaethau newydd ar draws y sector a chymunedau. Mae ymgyrch i wella isadeiledd megis toiledau, meysydd parcio a mynediad yn rhan allweddol o’r strategaeth ac, fel rhan o’r ymagwedd newydd, mae’r Cynllun yn amlygu cyfleoedd i gyflawni buddion cymdeithasol a buddion llesiant i gymunedau, yn ogystal ag arwain at well dealltwriaeth o rinweddau arbennig yr Ynys. Mae cyswllt rhwng y Cynllun Rheoli Cyrchfan a’r Cynllun Rheoli AHNE ac mae wedi’i alinio’n llawn â’r Cynllun y Cyngor newydd; bydd yn destun ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol a bydd eu safbwyntiau’n cael eu defnyddio i gynorthwyo i siapio a datblygu’r cynllun gweithredu dilynol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol y bydd y broses ymgynghori’n canolbwyntio ar randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cymunedau lleol trwy’r cynghorau tref a chymuned. Gan gydnabod pa mor bwysig yw’r diwydiant twristiaeth i ddyfodol yr Ynys a’i chymunedau, y nod yw gweithredu’n wahanol i’r gorffennol, a chaniatáu i fusnesau ddefnyddio’r model newydd i sicrhau, nid yn unig economi Ynys Môn i’r dyfodol, ond hefyd agweddau hanfodol bwysig megis y dirwedd, yr amgylchedd a chymunedau gan sicrhau felly fod twristiaeth yn gweithio i bawb. Yn ogystal â chreu heriau, mae’r economi ymwelwyr yn cynnig cyfleoedd i wneud defnydd ehangach o waith rheoli Cyrchfan i gysylltu â gwasanaethau eraill, megis Priffyrdd ac Addysg, gan olygu fod ei werth yn fwy ac yn ehangach na phe bai wedi’i gyfyngu i un gwasanaeth neu ddisgyblaeth.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig i’r Cyngor cyfan gymryd perchnogaeth o’r Cynllun, gan olygu fod gweithdrefnau a chydweithrediad mewnol yr un mor bwysig â’r rhai allanol a sefydlir ac na ddylai cyflawni’r Cynllun Rheoli Cyrchfan ganolbwyntio ar y Gwasanaeth Datblygu Economaidd yn unig, gan fod y materion yn mynd tu hwnt i’r gwasanaeth hwnnw’n unig. Mae grŵp mewnol sy’n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn adlewyrchu’r arwyddocâd a roddir i’r mater hwn, ac mae angen mynd ati i gryfhau prosesau tu mewn a thu allan i’r Cyngor ac adfywio partneriaethau a ffurfioli

DRAFT

trefniadau llywodraethiant i ddangos pa mor bwysig yw rheoli Cyrchfan a thwristiaeth gynaliadwy i'r Cyngor. Mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr wedi creu problemau cymhleth mewn rhai cymunedau ac mae'r Cyngor yn ceisio eu datrys o fewn fframwaith deddfwriaeth bresennol.

Wrth gydnabod fod twristiaeth yn creu nifer o fuddion i Ynys Môn a'i chymunedau, a'i bwysigrwydd i'r economi leol, roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn cydnabod bod angen cynyddol i gydbwyso'r buddion hynny yn erbyn anghenion yr amgylchedd a sero net er mwyn sicrhau twristiaeth sydd yn gyfrifol ac yn gynaliadwy. Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd Carwyn Jones, y cyn Aelod Portffolio, am ei waith ym maes twristiaeth a chyrchfan yn ystod y cyfnod hwnnw, ac roeddent yn annog y sector, yn ogystal â chymunedau'r Ynys, i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft.

Yn yr un modd â'r Cynllun Rheoli AHNE, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini yn dilyn y cyfnod ymgynghori er mwyn i'r Pwyllgor Sgriwtini fod yn llwyr ymwybodol o safbwyntiau rhanddeiliad ar y Cynllun wrth wneud ei argymhellion

**Penderfynwyd cymeradwyo a chefnogi'r Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft (2023-28) er mwyn ymgynghori arno gyda rhanddeiliaid allweddol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 30 Mai 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2023 – Ionawr 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2023 – Ionawr 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 2023** | | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Ieuan Williams | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 21.06.23 | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2023 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 20.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

Tudalen 12

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |
| 7 | **Ymateb i'r Her Dai Lleol – Datblygiadau tai dros 10 uned – Stad Parc y Coed, Llangefni (Gwedd 4)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Mehefin 2023 | |
| | | | | **Gorffennaf 2023** | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Cyfrifon Drafft 2022/23 a defnydd o'r Balansau ac Arian Wrth Gefn** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 10 | **Cynllun Deisebau** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |
| 11 | **Newid I'r Cyfansoddiad – Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democataidd** | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |
| 12 | **Dogfen Gyflawni Flynyddol 2023/24** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>12 Medi 2023 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 20.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br><br>Medi 2023 |
| 14 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Neville Evans | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 21.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 15 | **Adroddiad Ymgynghori - Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg** | | Dysgu | Marc Berw Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng Ieuan Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 20.06.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |
| 16 | **Adolygu Dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Marc Berw Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2023** | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 18 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 19 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

Tudalen 16

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 22 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |
| 23 | **Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn – Drafft Terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19.04.23<br>19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| **Hydref 2023** | | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2023** | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 27 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 28 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mehefin 2023 – Ionawr 2024

Diweddarwyd 22 Mai 2023

Tudalen 18

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| | | | | **Rhagfyr 2023** | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 31 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| | | | | **Ionawr 2024** | | | |
| 32 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 MAI 2023** |
| **Pwnc:** | **CYNLLUN DEWISOL COSTAU BYW – ADRODDIAD TERFYNOL** |
| **Aelodau Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID,Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD - DEILYDD PORTFFOLIO - PLANT, IEUENCTID A'R GWASANAETH TAI** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>**01248 752601**<br>**marc.jones@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Gwybodaeth Gefndir**

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau ond mae'r cyllid sydd wedi ei fanylu yn yr adroddiad yma wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a bu rhaid ei wario cyn 31 Mawrth 2023. Nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y bydd mwy o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ac nid oes unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb Refeniw 2023/24 y Cyngor i ddarparu cefnogaeth ariannol i drigolion sydd yn parhau i wynebu caledi ariannol.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid grant i ganiatáu'r Cyngor ddarparu cymorth i breswylwyr lleol a oedd yn wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd modd defnyddio'r gronfa i ddarparu cymorth grant uniongyrchol i breswylwyr lleol, i gyllido'r gost o brynu offer a fyddai'n gostwng y costau yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, neu i ddarparu cyllid i sefydliadau lleol a oedd hefyd yn darparu cefnogaeth i breswylwyr lleol.

Darparodd Llywodraeth Cymru swm o £585,163 ac roedd modd ychwanegu unrhyw danwariant o'r cynllun Costau Byw cenedlaethol at y cyllid grant a dderbyniwyd hefyd. O dan y cynllun cenedlaethol, derbyniodd 21,906 o breswylwyr daliad o £150. Ni wnaeth 999 gyfnewid y daleb a anfonwyd atynt am arian ac, oherwydd hynny, trosglwyddwyd £149,780 i'r cynllun dewisol. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm o £734,943 o gyllid ar gael ar gyfer y cynllun.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddau gam i'r cynllun dewisol (28 Mehefin 2022 a 24 Ionawr 2023).

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir y byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw gyllid nad oedd wedi cael ei wario erbyn 31 Mawrth 2023, er y byddai'n dderbyniol trosglwyddo'r cyllid i sefydliadau trydydd parti a fyddai'n gallu parhau i ddefnyddio'r cyllid i ddarparu cymorth ar ôl 31 Mawrth 2023, ar yr amod fod y cyllid wedi'i drosglwyddo o gyfrif banc y Cyngor.

**Cam 1 y Cynllun**

O dan Gam 1 y cynllun, darparwyd y cymorth a ganlyn:-

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Trethdalwyr nad oeddent yn gymwys o dan y prif gynllun. | 160,000 | 85,800 | 505 | |
| Cyn Aelodau o'r Lluoedd Arfog. | 10,000 | 10,000 | 17 hyd at 24/04/23 Gwariant hyd yma £2,400 | Gweinyddwyd y grantiau trwy SAAFA. Bydd SAAFA yn cadw unrhyw gyllid sy'n weddill i ddarparu cymorth parhaus i gyn-filwyr ar ôl Mawrth 2023. |
| Preswylwyr sy'n symud allan o lety argyfwng neu'n cael eu diffinio fel rhywrai sydd ag anghenion tai. | 50,000 | 82,207 | Cefnogwyd 290 o aelwydydd | |
| Preswylwyr sydd, ar sail asesiad, yn wynebu caledi ariannol.<br><br>**CAB Ynys Môn** | 50,000 | 50,000 | 107 | Bydd CAB yn cadw unrhyw danwariant ac yn parhau i wneud taliadau i unigolion sydd, ar sail asesiad, yn wynebu caledi ariannol ar ôl Mawrth 2023. |
| Preswylwyr sydd, ar sail asesiad, yn wynebu caledi ariannol.<br><br>**Canolfan J.E. O'Toole** | 50,000 | 59,936 | Cefnogwyd 222 o aelwydydd | Roedd y gyllideb lawn wedi'i gwario erbyn 31 Mawrth 2023. |
| **CYFANSWM** | **320,000** | **284,943** | | |

## Cam 2 y Cynllun

O dan Gam 1 y cynllun, darparwyd y cymorth a ganlyn:-

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu Pecynnau Effeithlonrwydd Ynni trwy'r lleoliadau Croeso Cynnes. | 30,000 | 27,026 | 369 Pecyn Ynni<br><br>315 Ffrïwr Aer<br><br>269 Popty Araf | Pecynnau effeithlonrwydd ynni i ostwng defnydd ynni aelwydydd.<br>Mae adroddiadau a dderbyniwyd hyd yma'n dangos presenoldeb o dros 3,500 mewn dros 420 o sesiynau Croeso Cynnes. |
| Cyllid i Fanc Bwyd Ynys Môn i dalu costau cyflog i ddelio gyda'r galw a pharhau i ddanfon pecynnau bwyd i ardaloedd gwledig. | 12,200 | 12,100 | - | Darparwyd cyllid i ymestyn contractau 2 weithiwr am gyfnod o 3 mis. Mae'r Cyngor wedi cefnogi Banc Bwyd Ynys Môn i wneud bid am £100,000 o gyllid Loteri er mwyn parhau i gyflogi'r ddau weithiwr am gyfnod o 2 flynedd. |
| Samariaid – cynorthwyo pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl oherwydd yr argyfwng costau byw. | 10,000 | 10,000 | | Ar gyfer costau canolog, gwirfoddolwyr. |

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Bwyd Nadolig<br><br>Bob blwyddyn, mae’r Cyngor a phartneriaid amrywiol yn cynnal prosiect bwyd Nadolig. Yn y gorffennol, rydym wedi dosbarthu hamperi bwyd ac anrhegion. Oherwydd y galw presennol ar ein gwasanaethau, penderfynwyd y byddai’r prosiect bwyd Nadolig ar gyfer 2022 yn seiliedig ar dalebau. Roedd pobl a dderbyniodd y talebau yn gallu dewis eu gwario mewn archfarchnadoedd a busnesau lleol, megis cigyddion. Roedd preswylwyr yn cael eu cyfeirio gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, darparwyr Grant Cymorth Tai, Heddlu Gogledd Cymru, partneriaid trydydd sector a llawer mwy. | 27,000 | 19,511 | Derbyniodd 400 o aelwydydd gymorth | Defnyddiwyd y cyllid i ddarparu talebau bwyd Nadolig. |
| Darparu cymorth i breswylwyr sydd â chyflyrau meddygol difrifol sy’n wynebu costau gwresogi / trydan uwch oherwydd hynny. | 25,000 | 38,500 | Proseswyd 17 o geisiadau<br><br>**Kidney Care Cymru** – Hyd yma, talwyd 35 o grantiau i gwmni ynni o ddewis y cleifion wedi i ymarferwyr gofal iechyd wneud cais ar eu rhan | Trosglwyddwyd £20k i Kidney Care Cymru a £10k i’r Gymdeithas MS. Darparwyd cymorth hefyd i unigolion a gyfeiriwyd at y Cyngor gan y Bwrdd Iechyd a’r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Roedd y cyllid hwn yn darparu cefnogaeth ychwanegol i aelwydydd sy’n gorfod defnyddio trydan er mwyn aros yn fyw neu i gynnal safon bywyd da. Er enghraifft, peiriannau cynnal bywyd yn y cartref. Cyfeiriodd Gwasanaethau Plant ac Oedolion a Gwasanaethau Tai’r Cyngor a BIPBC aelwydydd er mwyn iddynt dderbyn y cymorth hwn. Derbyniwyd cyfanswm o 17 cais @ £500 yr un a thalwyd yr arian ar ffurf taleb tanwydd. |
| Cyllid i ddarparwyr sy’n darparu gwasanaethau sy’n cael eu cyllido o’r grant Cymorth Tai. | 50,000 | 62,400 | | Darparwyd cyllid i Digartrefedd Ynys Môn, Cynefin, Wallich Clifford a Medrwn Môn. |

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Preswylwyr sy'n defnyddio tanwydd amgen.<br>Nid yw aelwydydd sy'n defnyddio olew i wresogi eu cartrefi wedi derbyn unrhyw gymorth gan y Llywodraeth er gwaethaf cynnydd sylweddol yng nghost olew i wresogi tai yn 2022. | 50,000 | 30,000 | Ni dderbyniwyd yr un cais hyd yma | Agorwyd cyfrifon gyda 2 gwmni lleol sy'n cyflenwi olew a throsglwyddwyd y cyllid i'r cwmnïau. Archebodd Swyddogion Cynhwysiant Ariannol olew gwresogi ar ran preswylwyr gan ddefnyddio'r cyllid a drosglwyddwyd i'r cwmnïau. |
| **CYFANSWM** | **204,200** | **199,537** | | |

**Prosiectau Ychwanegol a Gyllidwyd**

Er mwyn sicrhau fod yr holl gyllid yn cael ei ddefnyddio cyn 31 Mawrth 2023, bu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau), mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth – Tai a'r deilyddion portffolio perthnasol, awdurdodi rhyddhau cyllid ar gyfer y prosiectau canlynol:-

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Tlodi Bwyd sy'n cael ei redeg gan Fenter Môn i ddarparu bwyd maethlon sy'n cael ei baratoi yma ar yr Ynys. | | 110,000 | Erbyn 27/4/23 roedd 4,141 o brydau wedi cael eu dosbarthu ymysg y 10 rhewgell<br><br>(Mae 300 o blant wedi elwa ar y gwasanaeth hwn hyd yma) | Prynu rhewgelloedd cymunedol. Mae'r prosiect hwn yn parhau a bydd y cyflenwadau bwyd yn para tan fis Gorffennaf 2023. |
| Hybiau Cymunedol / lleoliadau Croeso Cynnes a sefydlwyd gan Medrwn Môn. | | 80,000 | | Cyllido'r costau ychwanegol a gafwyd gan gymunedau lleol wrth agor hybiau cymunedol a lleoliadau croeso cynnes yn ystod y gaeaf. |
| Cyllido cefnogaeth i rieni maeth, £300 tuag at danwydd neu fwyd. | 210,743 | 20,400 | 68 | Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ddiolchgar i'r 68 teulu maeth sy'n darparu cefnogaeth tymor byr a thymor hir i blant mewn gofal. |
| Prosiect Bwyd Da Môn. | | 27,000 | Bydd y prosiect hwn yn digwydd yn ystod 2023-24 a bydd yn darparu cymhorthdal i 110 o breswylwyr sy'n cael eu cefnogi naill ai gan CAB Ynys Môn, tîm O'Toole neu'r tîm Cynhwysiant Ariannol | Mae'r cynllun yn darparu cynllun aelodaeth, lle mae aelodau'n talu £5 yr wythnos er mwyn derbyn gwerth £20 o fwyd. Bydd y cynllun cymhorthdal yn caniatáu i 110 o aelwydydd fod yn rhan o'r cynllun yn rhad ac am ddim am y 12 wythnos gyntaf. Y nod ddelfrydol yw y bydd yr aelwydydd hyn yn dod yn aelodau sy'n talu £5 yr wythnos o wythnos 13 ymlaen. |

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Nifer o bobl a gefnogwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Coginio Age Cymru. | | 8,000 | | Ar gyfer costau staff. |
| Taflenni gwybodaeth Argyfwng Costau Byw. | | 16,384 | | Dosbarthwyd y daflen costau byw i 35,100 o aelwydydd. Roedd hyn yn golygu fod gan breswylwyr nad oes ganddynt fynediad digidol yn gallu cael mynediad at y wybodaeth hon er mwyn sicrhau fod cefnogaeth lawn yn cael ei ddarparu yn ystod yr argyfwng costau byw. |
| **CYFANSWM** | **210,743** | **261,784** | | |

**Costau Gweinyddol**

Er mwyn cyllido unrhyw gostau a gafwyd gan bob Cyngor wrth redeg y prif gynllun a'r cynllun dewisol, darparodd Llywodraeth Cymru grant gweinyddu gwerth £129,890. Gwariwyd £118,570 ar gostau gweinyddol, a oedd yn cynnwys costau staffio ychwanegol yn nhîm Budd-daliadau'r Cyngor a'r Tîm Tai, costau postio a ffioedd rheoli a godwyd gan sefydliadau trydydd parti a fu'n asesu'r ceisiadau ar ran y Cyngor.

**Crynodeb**

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cyllid a oedd ar gael a sut y cafodd ei ddefnyddio:-

| Cynllun | Cyllideb £ | Gwariant Gwirioneddol £ | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| Cynllun Dewisol Cam 1 | 320,000 | 284,943 | (35,057) |
| Cynllun Dewisol Cam 2 | 204,200 | 199,537 | (4,663) |
| Prosiectau Ychwanegol | 210,743 | 261,784 | 51,041 |
| Costau Gweinyddol | 129,890 | 118,570 | (11,320) |
| **CYFANSWM** | **864,833** | **864,833** | |

Er bod y Cyngor yn arafach yn defnyddio'r cyllid dewisol nag Awdurdodau eraill yng Nghymru, a benderfynodd defnyddio'r cyllid grant i ddyfarnu grantiau ychwanegol i grwpiau penodol o breswylwyr, defnyddiodd y Cyngor ddull wedi'i dargedu a oedd yn cyfeirio'r cyllid at feysydd a oedd yn darparu'r budd mwyaf i bobl a oedd fwyaf angen cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw.

Mae'r holl gyllid wedi cael ei rannu gan y Cyngor yn unol ac amodau grant Llywodraeth Cymru, er nid yw rhai mudiadau wedi rhannu'r holl gyllid roeddent wedi ei dderbyn cyn 31 Mawrth 2023. Bydd y mudiadau yn cadw unrhyw gyllid sydd heb ei ddefnyddio a gallant ddal i roi help cyllidol i unrhyw ymgeisydd newydd ddaw ymlaen, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion sy'n ymwneud â'r cyllid a ddarperir.

**<u>Llywodraethiant</u>**

Ym mis Awst 2022, gofynnodd Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor am adolygiad llawn o waith atal, ymyrraeth gynnar a thlodi a oedd yn cael eu cyflawni ar y pryd gan swyddogion amrywiol mewn adrannau amrywiol. Caniataodd yr adolygiad i'r Cyngor gloriannu'r sefyllfa a chytuno ar argymhellion ar gyfer strwythurau a rhaglenni yn y dyfodol.

| |
|---|
| Ers yr adolygiad, penodwyd Rheolwr Rhaglen dynodedig sydd yn arwain y rhaglenni ymyrraeth gynnar, atal a thlodi. Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi datblygu cynllun gweithredu ac wedi rhoi strwythur llywodraethu a gwneud penderfyniadau ffurfiol ar waith.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys yr adroddiad sydd yn cadarnhau fod yr holl gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant. |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r grant, ond ystyriwyd bod yr opsiynau a ddewiswyd yn darparu'r budd mwyaf i breswylwyr Ynys Môn a oedd yn wynebu'r angen mwyaf. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Heblaw am nodi cynnwys yr adroddiad, nid oes angen penderfyniad ffurfiol ar hyn o bryd. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Amherthnasol. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Darparwyd cyllid drwy grant gan Lywodraeth Cymru ac roedd y gwariant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant a defnyddiwyd yr holl gyllid a oedd ar gael yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Roedd y cyllid grant yn darparu cymorth tymor byr i unigolion a oedd yn wynebu'r angen mwyaf, ond nid yw'n datrys y broblem dymor hir i breswylwyr Ynys Môn sy'n parhau i ddioddef oherwydd yr argyfwng costau byw parhaus. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Bydd angen cyllido'r strategaeth atal tlodi yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Gweithiodd nifer o sefydliadau trydydd sector gyda'r Cyngor i ddarparu'r cymorth i breswylwyr Ynys Môn. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer defnyddio'r cyllid, nid oedd digon o amser i ymgynghori â dinasyddion ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Derbyniodd rhai grwpiau a warchodir gymorth ychwanegol yn sgil yr arian hwn. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Pwrpas y grant oedd cynorthwyo unigolion a oedd yn wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, ac roeddent yn tueddu i fod yn grwpiau a oedd yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith. Nid oedd gan iaith ddewisol y preswylydd unrhyw ddylanwad wrth ddyrannu'r cyllid. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Derbyniwyd yr adroddiad gyda dim ond mân welliannau y gofynnwyd amdanynt nad oedd yn effeithio ar yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Yn rhan o'r TA ac nid oedd dim sylwadau penodol yn ychwanegol i'r rhai a wnaed gan y TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Roedd y cynllun yn gynllun ledled Ynys Môn ac roedd pob Aelod yn derbyn gwybodaeth am gynnydd trwy gyfrwng sesiynau briffio Aelodau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

Dim

**FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth pellach):**

Pwyllgor Gwaith - 28 Mehefin 2022 – Eitem 9
Pwyllgor Gwaith - 24 Ionawr 2023 – Eitem 8

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Mai 2023** |
| **Pwnc / Testun:** | **Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023 – 2028** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Gary Pritchard – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Saul Ainsworth & Emma Edwards**<br>**01248 751887**<br>**Emmaedwards@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol:

**Argymhelliad**

1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023-2028 ac yn cyflwyno sylwadau ar gynnwys y strategaeth.

2. Bod y Pwyllgor yn derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r strategaeth hon yn nodi ymrwymiad Cyngor Sir Ynys Môn; egluro sut y byddwn yn gweithredu fel rhiant corfforaethol effeithiol a dibynadwy ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd dan ein gofal, waeth beth fo' u hoed, rhyw , rhywioldeb, ethnigrwydd, cred neu anabledd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn derbyn cyngor a chymorth o ansawdd dda pan fyddant yn gadael gofal. Byddwn yn dryloyw ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal a bydd y cymorth hwn yn cael ei gynnig i bob person ifanc cyn iddynt adael gofal fel rhan o'u cynllun gofal.

Rhennir y Strategaeth â'r Pwyllgor Gwaith er mwyn ei gymeradwyo.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amh.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amh.

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023-2028 yn nodi'n hymrwymiad, gweledigaeth a chyfarwyddyd fel Rhiant Corfforaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:- | Fel yr uchod. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Do. Mae'r Strategaeth wedi cael ei datblygu gan y Panel Rhiantu Corfforaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr aml-asiantaethol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | |
| 5 | Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir i dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Sylwch ar unrhyw effaith bosib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol) | Amh.<br>Mae'r Panel yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amh. |
| 5 | Eiddo | Amh. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amh. |
| 7 | Caffael | Amh. |
| 8 | Sgriwtini | 18 Ebrill 2023 |

V1.2 GM10.9.19

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | Amh. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn 2023-2028** |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda): |
|---|
| Dim. |

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey



Tudalen 30

# STRATEGAETH PLANT SY’N DERBYN GOFAL AC ÔL OFAL YNYS MÔN (2023 – 2028)

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk



**Fôn Roberts**
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol





**Cynghorydd Gary Pritchard**
Aelod Portffolio – Gwasanaethau Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Ieuenctid

Croeso i Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn (2023 – 2028). Mae dod i mewn i ofal fel arfer yn brofiad trawmatig, ac, yn achos y mwyafrif llethol o blant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal, cam-drin, esgeulustod neu anawsterau teuluol sydd i gyfrif am hynny.

Mae Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal Ynys Môn yn hynod o bwysig i ni. Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ein grŵp mwyaf bregus o blant a phobl ifanc ac rydym yn ceisio'n barhaus i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal yn cael y cyfle i ffynnu; i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed a chamanfantais; i gyrraedd eu potensial; i fod yn emosiynol a chorfforol iach ac i gael eu cefnogi a'u paratoi i fod yn oedolion.

Dylai pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn gael y dechrau gorau posib mewn bywyd a dylid rhoi pob cyfle iddynt ffynnu.

Fel rhieni corfforaethol, ein gweledigaeth yw sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn wahanol, a'u bod yn derbyn yr un gefnogaeth, yr un anogaeth a'r un cyfleoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau ym mhob agwedd o'u bywydau.

Mae gennym gyfrifoldeb moesol i weithio gyda'n gilydd fel gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol i gynnig i'n plant a'n pobl ifanc y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i lwyddo a ffynnu.

# Pam bod angen Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal ?

Mae rhiantu corfforaethol yn cyfeirio at y cydgyfrifoldeb ar draws y Cyngor i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gennym ni, neu sy'n gadael gofal, yn cael eu cefnogi i ffynnu; nhw yw 'ein plant'.

Mae rôl y Cyngor o ran gofalu am y plant a phobl ifanc yn un o'r pethau pwysicaf rydym ni'n ei wneud. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb unigryw i'r plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gennym ni, yn ogystal â'r rheiny sy'n gadael ein gofal.

Dylai rhiant corfforaethol da feddu ar yr un dyheadau ar gyfer plentyn/unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal ag y byddai rhiant ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sefydlogrwydd a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ddatblygu; a'u helpu nhw i osod targedau uchelgeisiol eu hunain. Mae'n golygu dathlu eu llwyddiant a chydnabod y byddant yn gwneud camgymeriadau ar brydiau ac angen help i gydio yn yr awenau eto. Mae hefyd yn golygu eu cefnogi nhw i feithrin y sgiliau a'r hyder i fyw'n annibynnol, a'u hatgoffa fod rhywun ar gael bob amser pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae ei strategaeth yn nodi sut rydym yn bwriadu herio ein hunain fel rhieni corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n cynnig y cyd-destun cyfreithiol a lleol rydym ni'n gweithredu oddi mewn iddo, ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r rheiny sy'n gadael ein gofal a sut rydym yn bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth.


# I bwy mae'r strategaeth hon?

**Cyfradd Gofal: 95/10000**

**150 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**

Tudalen 33

63 sy'n gadael gofal




**65% o blant a phobl ifanc yn byw gyda gofalwyr maeth**

10 o blant sy'n Geiswyr Lloches ac sydd wedi cyrraedd y DU ar eu pen eu hunain

75% o blant a phobl ifanc yn byw ar Ynys Môn

# Fframwaith Deddfwriaethol

Rydym yn ceisio cefnogi y rhan fwyaf o'n plant a phobl ifanc o fewn eu teuluoedd a chymunedau eu hunain; fodd bynnag, nid yw hyn yn bosib i lond llaw o'r unigolion hyn, ac maent angen trefniadau gofal amgen (un ai tymor byr neu hir).

Mae plant a phobl ifanc yn ein gofal ni un ai drwy orchymyn llys neu drwy gytundeb â'u rhiant (rhieni) neu warcheidwad (gwarcheidwaid). Efallai y bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn dod i'n gofal o ganlyniad i anawsterau tymor byr neu hir a brofir gan eu rhieni, o ganlyniad i gam-drin, esgeulustod neu amrywiaeth o anawsterau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ein plant wedi'i gefnogi gan nifer o ddeddfwriaeth allweddol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant (2000)
- Deddf Ymadael â Gofal (2000)
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Plant a Theuluoedd (2014)

# Ein Gweledigaeth. Ein Hymrwymiad.

### Ein Gweledigaeth

Mae 'Ein Plant' yn cyfeirio at y plant a phobl ifanc ar Ynys Môn sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal. Mae hyn, yn ei hanfod, yn siapio ein gweledigaeth a dyheadau ar eu cyfer. Yn y pen draw, rydym eisiau i bob plentyn dderbyn y gefnogaeth i ddatblygu yn oedolion sy'n cyfrannu at egwyddorion a gwerthoedd cadarnhaol, a'u harddangos.

### Ein Hymrwymiad

Byddwn yn rhiant corfforaethol effeithiol a dibynadwy ar gyfer unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal gennym, waeth beth yw eu hoed, rhyw, rhywedd, ethnigrwydd, ffydd neu anabledd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cyngor a chefnogaeth o ansawdd pan fyddant yn gadael gofal.

Bydd y cynnig cefnogaeth i'r rheiny sy'n gadael gofal yn dryloyw ac yn cael ei rannu a phob unigolyn ifanc cyn iddynt adael gofal.

Byddwn yn gwrando ar ein plant a phobl ifanc er mwyn eu helpu nhw i gyflawni o fewn eu bywydau, yn yr un modd ac mae gwasanaethau'n cael eu siapio drwy fanteisio ar ein hadnoddau.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Bydd y Panel Rhiantu Corfforaethol yn cwrdd bob chwarter er mwyn:

- ✓ Herio a chraffu er mwyn parhau i wella safonau i helpu ein plant a phobl ifanc gyflawni hyd eithaf eu gallu
- ✓ Sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau a chyfrifoldebau strategol i safon dda
- ✓ Sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol mewn tîm er mwyn bodloni anghenion ein plant a phobl ifanc
- ✓ Mynnu safbwyntiau ein plant a phobl ifanc er mwyn siapio datblygiadau gwasanaethau'n effeithiol.

# Pyramid Maslow: Hierarchaeth Anghenion




Tudalen 36

Mae ‘hierarchaeth anghenion’ Maslow yn dangos model pum haen o anghenion dynol. Rhaid bodloni’r anghenion sydd ar waelod yr hierarchaeth cyn gall pobl fodloni’r anghenion sydd wedi’u hadnabod yn yr haenau uwch. Fe rhieni corfforaethol, rydym eisiau darparu’r sylfeini er mwyn galluogi ein plant a phobl ifanc i fodloni eu hanghenion sylfaenol yn annibynnol wrth ddod yn oedolion, ac yn y pen draw, bydd yn eu galluogi nhw i daro sylw i’r anghenion uwch.

# Fel Rhieni Corfforaethol, byddwn yn:

1. Diogelu ein plant a phobl ifanc rhag risg a bod yn fregus
2. Deall ein plant a phobl ifanc a’u hanghenion, doniau a dyheadau a hyrwyddo eu diddordebau
3. Bod â dyheadau uchel ar gyfer eu presennol a’u dyfodol, a disgwyl y gorau ohonynt ac ar eu cyfer
4. Dangos yn eu llwyddiant/heriau a dathlu eu gweithdai
5. Gwrando ar eu barn a sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn dylanwadu ar arferion, gwasanaethau a newidiadau polisi
6. Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ym mhob agwedd
7. Cefnogi cyflawniad academaidd a galwedigaethol uchel. Cefnogi eu cyfraniadau menter a chreadigol
8. Cefnogi eu hiechyd, eu llesiant emosiynol a'u gwytnwch drwy fanteisio ar y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir
9. Eu cefnogi i fod yn ddinasyddion moesegol wybodus
10. Cefnogi eu cyfnod pontio i fyd oedolion drwy eu paratoi i ddod yn ddinasyddion cyfrifol
11. Dysgu o ganmoliaeth a chwynion gan blant a phobl ifanc

# Blaenoriaeth Strategol: Her Aelodau Etholedig

**Pam ei fod yn bwysig?**

Er mwyn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael ein gofal, mae'n bwysig bod gan aelodau etholedig a swyddogion ar draws y Cyngor ddealltwriaeth o'r materion y mae ein pobl ifanc yn eu hwynebu wrth iddynt dyfu, datblygu a pharatoi/dod i fyd oedolion.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Byddwn yn sicrhau bod gan aelodau etholedig y wybodaeth a'r sgiliau allweddol i herio a chraffu ar allu'r gwasanaeth i fodloni anghenion ein plant a'n pobl ifanc ar y cyd ac yn effeithiol.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Trefnu gweithdy ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r strategaeth hon yng nghyd-destun y math o faterion mae ein plant ifanc yn eu hwynebu
- ✓ Sicrhau bod y Panel Rhiantu Corfforaethol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn herio a chraffu ar ddata ac adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion ar draws y bartneriaeth
- ✓ Sicrhau bod aelodau'r panel yn cael cyfle i gwrdd â rhai o'n plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth uniongyrchol o'u profiadau

# Blaenoriaeth Strategol: Llety

### Pam ei fod yn bwysig?

Mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth ddewis o leoliadau er mwyn cwrdd â'r plant a phobl ifanc, a rhaid i'r lleoliadau gyd-fynd â'r anghenion a nodwyd. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o sefydlogrwydd i'n plant a phobl ifanc, sef y sylfaen ar gyfer cynnig gwell cyfleoedd mewn bywyd.



### Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod gennym ddigon o leoliadau addas er mwyn darparu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gofalu amdanynt.

### Sut ydyn ni am wneud hyn?

**Byddwn yn:**

- ✓ Parhau i weithio gyda Maethu Cymru yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i gynyddu nifer y gofalwyr maeth i fodloni anghenion amrywiol ein plant
- ✓ Parhau i adeiladu ar raglen cartrefi grŵp bach lwyddiannus Cartref Clyd i alluogi mwy o'n pobl ifanc, y mae gofal preswyl yn bodloni eu hanghenion orau, i barhau i fyw ar yr ynys yn eu cymunedau
- ✓ Parhau i gynnig buddion gwell i ddarpar ofalwyr maeth er mwyn annog maethu i'r Cyngor
- ✓ Parhau i fanteisio ar dechnolegau newydd i gefnogi ein gofalwyr maeth a chartrefi grwpiau bach.

# Blaenoriaeth Strategol: Llety i’r Rhai sy’n Gadael Gofal

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth ddewis o leoliadau er mwyn cwrdd â'r plant a phobl ifanc, a rhaid i’r lleoliadau gyd-fynd â’r anghenion a nodwyd. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o sefydlogrwydd i'n plant a phobl ifanc, sef y sylfaen ar gyfer cynnig gwell cyfleoedd mewn bywyd.



**Beth fyddwn ni’n ei wneud?**

Sicrhau bod gennym ddigon o leoliadau addas a threfniadau byw ar gyfer ein pobl ifanc sy’n gadael gofal.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**
**Byddwn yn:**

- ✓ Cyfrannu at y broses dendro Cefnogi Pobl mewn perthynas â llety ar gyfer pobl ifanc sy’n agored i niwed, gan sicrhau bod lleisiau ein pobl ifanc yn cael eu clywed
- ✓ Parhau i ehangu a datblygu ‘Pan Fydda i’n Barod’ i alluogi mwy o’n pobl ifanc i aros yn eu lleoliadau maeth ôl-18, os mai dyna yw eu dymuniad
- ✓ Datblygu cyfarfodydd partneriaeth ‘llwybr’ rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Theuluoedd) a’r Gwasanaethau Darparu Tai i sicrhau bod anghenion llety pobl ifanc unigol yn cael eu bodloni, gyda’r bwriad o leihau digartrefedd

# Blaenoriaeth Strategol: Iechyd Emosiynol a Gwytnwch

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn gwasanaethau iechyd meddwl o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym am fynd i'r afael â'r duedd hon ar gyfer ein plant.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Byddwn yn hybu iechyd emosiynol a gwytnwch ein plant er mwyn eu datblygu'n emosiynol wrth iddynt symud i fyd oedolion.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Parhau ar ein taith i ddod yn ynys sy'n wybodus o drawma, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am ein plant (gofalwyr maeth/gweithwyr preswyl), y rhai sy'n addysgu ein plant a'r rhai sy'n cefnogi ein plant.
- ✓ Parhau â'n pecyn hyfforddi ar gyfer gweithlu'r ynys fel bod y Dull Adfer Trawma wedi'i wreiddio, gan alluogi gweithwyr proffesiynol/gofalwyr i fod yn wybodus ac yn fedrus.
- ✓ Adolygu effaith y Strategaeth Adfer Trawma trwy gyfrwng y dangosyddion perfformiad allweddol a sefydlwyd yn y strategaeth honno
- ✓ Cydleoli ymarferwyr CAMHS gyda staff Gofal Cymdeithasol i hwyluso a gwella cydweithio effeithiol ar gyfer plant unigol

# Blaenoriaeth Strategol: Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn ffigurau diweithdra, sy'n aml yn cyfrannu at or-gynrychiolaeth ar draws ystod o fynegeion tlodi. Rydym am roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd i'n pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i gael gwaith, datblygu eu hannibyniaeth a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a'u cymunedau lleol.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Cynyddu nifer y rhai sy'n gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Mesur effaith y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol (BIP) ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, sy'n rhoi incwm gwarantedig sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n cyrraedd deunaw oed rhwng Gorffennaf 2022 a Mehefin 2023.
- ✓ Gwerthuso effaith y diploma achrededig sgiliau byw'n annibynnol, sydd ar gael i ddeg o bobl sy'n gadael gofal yn ystod 2023-24
- ✓ Gwerthuso effaith y Panel Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 16+, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **30 o Fai 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Defnydd o Arian Premiwm Ail Gartrefi** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Gary Pritchard** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Elliw Llyr**<br>**ElliwLlyr@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Holl Aelodau** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn :-

**A1.** Cymeradwyo defnydd o arian Premiwm Ail Gartrefi ar gyfer cynlluniau fel yr amlygir yn **rhif 10.0** isod ar gyfer 2023/24.

**A2.** Cynyddu uchafswm grant sydd ar gael ar gyfer tai gwag yn ôl i ddefnydd hyd at uchafswm o £25,000.

**1.0 Cefndir**

**1.1** Ers 2017 mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi i gynorthwyo pobl leol allu prynu tŷ gwag a'i droi yn gartref yn ogystal á benthyciadau ecwiti er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf. Dyrannwyd £170k ar gychwyn y cynllun gyda chynnydd i £696k erbyn 2022-23. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus gyda chyllideb flwyddyn hon wedi ymrwymo i grantiau sydd wedi eu cymeradwyo neu yn y broses o gael eu cymeradwyo.

**1.2** Ar gyfer 2023/24 mae gennym £1.502m o arian Premiwm Treth Cyngor ar gael i ddyrannu, dengys y tabl ym mharagraff 10.0 ein cynigion ar gyfer defnydd o'r arian.

**1.3** Mae defnydd o'r arian ar gyfer cael tai gwag i ddefnydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ers cychwyn y prosiect a hyderwn y byddwn yn parhau i allu rhoddi cymorth i hyd at 32 o achosion o'r fath blwyddyn nesaf hefyd. Fel nodwyd isod ym mharagraff 5, yn sgil y cynnydd sylweddol sydd wedi ei weld mewn costau nwyddau adeiladu gofynnwn i gael cynyddu'r uchafswm grant o'r £20,000 presennol.

**1.4** Ers mis Hydref 2022 rydym wedi lansio **Cynllun Cymorth Prynu Môn** er mwyn helpu prynwyr gyda chynllun ecwiti ar gyfer tai sydd ar werth ar y farchnad agored. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn araf yn dwyn ffrwyth oherwydd y hinsawdd economaidd sydd wedi bod ers mis Medi y llynedd a'r diffyg i ymgeiswyr allu cael benthyciadau morgais.

Serch hynny rydym nawr yn gweld pethau yn cychwyn symud gyda'r gobaith bydd y pryniant cyntaf yn cwblhau yn fuan iawn.   Gweler tabl isod am wybodaeth am statws ceisiadau ar gyfer y cynllun hwn.

| Sefyllfa'r Cais | Nifer o Geisiadau | Sylwadau |
|---|---|---|
| Ceisiadau wedi'i gymeradwyo | 1 | Benthyciad £30k (20%) |
| Yn cwblhau'r asesiad | 1 | |
| Ceisiadau wedi'i dynnu nôl | 4 | 2 achos dim digon o flaendal |
| Ceisiadau actif | 8 | |

**1.5** Mae oedran yr ymgeiswyr yn amrywio o 21- 44 oed gyda'i leoliadau dewisol ar draws yr Ynys:

| | | |
|---|---|---|
| Fali | Caergybi | Caergeiliog |
| Llanedwen | Bryn Du | Llangefni |
| Gaerwen | Rhostrehwfa | Pentraeth |
| Penysarn | Llanfechell | Bae Trearddur |
| Pont Rhydybont | Llanfairpwll | Gwalchmai |
| Llannerchymedd | Rhosybol | Coedana |
| Bryngwran | Rhosneigr | Llanfaelog |
| Llangaffo | | |

**1.6** Yn ystod 2022/23 rydym wedi cymeradwyo 18 o geisiadau ar gyfer **Cynllun Prynwyr Tro Cyntaf** ar gyfer Tai Gwag yn ôl i ddefnydd hyd yma gyda grantiau gwerth £331,409 wedi eu cymeradwyo.  Roedd 4 o'r rhain yn Caergybi, 2 yn Llanfairpwll, 2 yn Gwalchmai, 2 yn Rhosybol ac 1 yn Amlwch, Llangefni, Pontrhydybont, Y Fali, Llandegfan, Aberffraw, Llangoed a Pentraeth.

**1.7** Ar hyn o bryd, gennym, 11 ymholiadau lle mae'r eiddo wedi cael eu hasesu ac yn disgwyl iddynt gwblhau/cyflwyno cais. Mae ymholiadau ar gyfer eiddo yn yr ardaloedd canlynol wedi eu derbyn:- Caergybi, Rhostrehwfa, Pentraeth, Bodedern, Llanddeusant, Llanfairpwll, Pensarn, Amlwch a Tregele

**2.0 Buddion ychwanegol i gynllun Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf**

**2.1** Mae 41 o fusnesau neu gontractwyr bychan / canolig wedi elwa o'r cynllun trwy dderbyn gwaith trwy'r cynllun Grant i Brynwyr Tro Cyntaf. Mae gwerth nodi bod, rhai contractwyr a busnesau yn cael defnyddio nifer o weithiau ac yn cynhyrchu mwy o waith.

**2.2** Mae Masnachwyr Adeiladwyr yn chwarae rhan allweddol yn y cynllun wrth werthu cynhyrchion a deunyddiau ac yn cyfrannu at y gwaith adnewyddu. Mae Masnachwyr Lleol yn cyflogi llawer o'r economi lleol wrth gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda nifer o siopau ym mhob rhan o'r Ynys.

**3.0 Gwella Effeithlonrwydd Ynni**

**3.1** Ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu fe amcangyfrifir y bydd mesurau a fydd yn gwella'r lefelau effeithlonrwydd ynni, e.e. boeler effeithiol, deunydd inswleiddio a drysau a ffenestri (graddfa EPC D ac uwch) wedi cael eu gosod yn 100% o'r eiddo gan olygu y bydd costau ynni yn is i'r perchnogion. Yn ogystal, mae'r holl eiddo wedi eu gwella a'u moderneiddio gan olygu llai o gostau cynnal a chadw i'r perchnogion yn y dyfodol ac y bydd gwerth y tŷ wedi cynyddu o ganlyniad. Gallai hyn helpu'r rhai hynny a fydd, yn y dyfodol, angen symud i eiddo mwy addas petai eu sefyllfaoedd yn newid gan y bydd ganddynt ecwiti y gallant ei ryddhau. (Byddai'n rhaid ad-dalu'r grant yn llawn petai'r eiddo yn cael ei werthu o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r gwaith a gefnogwyd gan y grant).

**4.0 Adborth gan bobl sydd wedi derbyn y grant**

"Dyma rai lluniau o fy nghartref wedi ei orffen, rwyf mor hapus a balch o gael symud mewn i gartref mor braf i fi a fy mab 6 oed! Mor mor hapus. Diolch yn fawr iawn i chi am y grant, mae wedi bod o gymorth enfawr, allai ddim diolch digon i chi"

Dyma rhai lluniau cyn ac ar ol:










**5.0 Adolygu uchafswm lefel grant**

Rydym yn cydnabod bod costau uwch i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, gan fod costau llafur a nwyddau wedi cynyddu yn ddiweddar byddwn yn argymell codi lefel y grant i £25,000.

**6.0 Cynllun LlC Adnewyddu Tai Gwag**

**6.1** Mae [Cynllun LlC Adnewyddu Tai Gwag <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-grant-cartrefi-gwag-cenedlaethol>](https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-grant-cartrefi-gwag-cenedlaethol) wedi ei lansio yn Ionawr 2023 gyda bob ALL yn cael ei annog i ymuno er mwyn hyrwyddo mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae Ynys Môn yn barod i gymryd rhan yn y cynllun hwn gyda chyfraniad gan bob AlL yn seiliedig ar ganran tai gwag o fewn y Sir. Disgwylir i Ynys Môn gyfrannu £38k tuag at y cynllun gyda'r argymhelliad bod y swm hwn yn dod o'r Premiwm Treth Cyngor.

**7.0 Sybsideiddio Rhent Marchnad Agored**

**7.1** Mae rhenti marchnad agored ar yr Ynys tu hwnt i gyrraedd llawer o drigolion yr Ynys gyda chyflog cyfartalog blynyddol yr Ynys ar hyn o bryd yn (£27.5k).

**7.2** Mae lefel presennol y Lwfans Tai Lleol yn sylweddol is (£120.00 yr wythnos ar gyfer tŷ stafell wely) na'r lefelau rhent marchnad agored am eiddo ar yr Ynys (£190 yr wythnos ar gyfer tŷ 3 stafell wely). Yn ôl adroddiad Bevan Foundation *Deall y Lwfans Tai Lleol – Beth gall cael ei wneud?*, Mawrth 2022 mae eu gwaith ymchwil yn dangos mai dim ond 3.8% o'r farchnad sydd gyda lefel rhent fyddai yn gallu cael ei dalu'n llawn gyda'r LHA, gyda dim ond 2.1% o'r farchnad ar gael i denantiaid incwm isel gan

fod gofynion y landlordiaid yn rhy gaeth (e.e. angen blaendal uchel, gofynion am isafswm incwm ayyb).

**7.3** Gwelwyd yn ddiweddar y nifer o landlordiaid sydd yn gweithredu ar yr Ynys yn gostwng sydd hefyd wedi cael effaith ar lefelau rhent marchnad agored.

**7.4** Mae angen edrych ar sefydlu cynllun sydd ar gael ar gyfer sybsideiddio lefelau rhent marchnad agored ar gyfer unigolion lleol gyda hyn yn cael ei ariannu allan o'r Premiwm Treth Cyngor sydd yn cael ei gasglu.

**7.5** Dylid edrych ar gynllun sydd yn pontio'r gwahaniaeth rhwng lefelau rhent canolraddol a lefelau rhent marchnad agored fesul maint eiddo sydd ar gael am gyfnod o hyd at 5 mlynedd i unigolion yn cychwyn ar 100% o'r gwahaniaeth rhwng LTLl a rhenti marchnad agored yn blwyddyn 1 lawr at 20% yn blwyddyn 5.

**8.0 Prynu Tai ar Werth ar y Marchnad Agored i'w Gosod ar delerau Rhent Canolraddol**

**8.1** Yn sgil diffyg eiddo rhent preifat sydd ar gael ar yr Ynys gellid rhoddi ystyriaeth i fod yn prynu eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored drwy ddefnyddio arian premiwm treth Cyngor gyda'r bwriad o'u cynnig fel eiddo rhent canolraddol ar gyfer unigolion lleol.

**8.2** Byddai modd hefyd edrych ar opsiwn Rhentu yn Gyntaf fel bod modd i'r unigolion sydd yn rhentu'r eiddo gael opsiwn ar gyfer prynu siâr ecwiti yn yr eiddo i'r dyfodol.

**9.0 Dyraniad i'r Gwasanaeth Cynllunio (Erthygl 4)**

**9.1** Mae angen capasiti ac adnoddau ychwanegol i alluogi'r Cyngor i ddatblygu a gweithredu ei ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi a llety gwyliau ar yr Ynys.

**9.2** Defnyddir yr arian i:

a. Dadansoddi'r ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd i ddeall y goblygiadau ac opsiynau posib ar gyfer Ynys Môn a'r Cyngor.

b. Nodi, adolygu a dadansoddi ardaloedd ar yr Ynys lle mae ail gartrefi a llety gwyliau yn effeithio ar allu trigolion i gael cartref.

c. Creu a chynnal tystiolaeth gadarn a sylfaen ddata er mwyn dylanwadu ar ymateb a blaenoriaethau'r Cyngor, yn ogystal â dylanwadu ar yr ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill a rhan-ddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill.

ch. Cynnal gweithgareddau cynllunio senarios strategol i nodi ymateb ac ymyriadau'r Cyngor.

d. Comisiwn a rheoli cefnogaeth allanol arbenigol i gryfhau dealltwriaeth y Cyngor o'r heriau a'r goblygiadau posib.

**10.0 Defnydd Gwasanaeth Tai o'r Premiwm Treth Cyngor 2023/24**

| Math o Gymorth | Nifer o Achosion | Dyraniad 2023/24 |
|---|---|---|
| Grantiau Tai Gwag yn ôl i ddefnydd uchafswm £25,000 | 32 | £675,000 |
| Benthyciadau Rhannu Ecwiti i brynwyr tro cyntaf ar gyfer pryniant tai ar y farchnad agored | 10 | £390,000 |
| Cynllun LLC Adnewyddu Tai Gwag | 16 | £38,000* |
| Cynllun sybsideiddio rhenti marchnad agored i fod yn fforddiadwy ar gyfer pobl leol | 10 | £50,000 |
| Cynllun prynu tai marchnad agored i'w rhentu ar delerau rhent canolraddol neu Rhentu yn gyntaf | | Cynllun i'w ddatblygu ar gyfer 2024/25 |
| Ariannu Swydd Cymhorthydd Tai Gwag | | £49,000 |
| Dyraniad i'r Gwasanaeth Cynllunio (Erthygl 4) | | £300,000 |
| Cyfanswm | | £1,502,000 |

**Gweddill yn cael ei ariannu gan y perchennog ac LLC*

Byddwn yn adolygu gwariant ar y cynlluniau yn gyson drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr arian ar gael ar gyfer y cynlluniau ble mae'r galw.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Byddai peidio gwneud defnydd o'r arian ar gyfer cynlluniau sydd yn hyrwyddo tai fforddiadwy yn mynd yn groes i ysbryd bwriad codi'r premiwm

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Er mwyn cytuno'r cynlluniau a'r gwariant ar gyfer 2023-24 |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae yn rhoi cymorth i gael mynediad i'r farchnad dai. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Cynorthwyo i bobl gael mynediad i dai fforddiadwy |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydym, drwy Tai Teg |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Arolwg Tai wedi ei gynnal yn ystod 2021 |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Dim wedi ei adnabod |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Cynorthwyo gyda cael mynediad I dai fforddiadwy |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dd/b |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cefnogol i'r cynigion |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Cefnogol i'r cynigion |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Cefnogol i'r cynigion |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

This page is intentionally left blank